OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 No. 322

# Rheoliadau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 2012

## RHAN B

## APELAU ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG A HAWLIADAU ANABLEDD

### CYCHWYN ACHOSION

***Gwneud apêl neu hawliad***

**Gweithredu gan Ysgrifennydd y Tribiwnlys**

**15.**—(1) Pan ddaw'r cais apêl neu'r cais hawlio i law, rhaid i Ysgrifennydd y Tribiwnlys—

(a) cofnodi ei fanylion yn y Gofrestr; a

(b) anfon at yr apelydd neu'r hawlydd—

(i) cydnabyddiaeth o'i dderbyn a nodyn o rif yr achos a gofnodwyd yn y Gofrestr;

(ii) nodyn o'r cyfeiriad y dylid anfon hysbysiadau a chyfathrebiadau iddo ar gyfer y Tribiwnlys;

(iii) hysbysiad y gellir cael cyngor ynghylch y weithdrefn apelau neu hawliadau o swyddfa'r Tribiwnlys;

(iv) yn ddarostyngedig i reoliad 19(2), hysbysiad sy'n datgan yr amser a ganiateir ar gyfer cyflwyno datganiad achos a thystiolaeth yr apelydd neu'r hawlydd o dan reoliad 19(1); a

(v) datganiad o'r canlyniadau posibl i'r apêl neu'r hawliad os na fydd y parti'n cydymffurfio â rheoliad 7 (rhwymedigaeth ar y partïon i gydweithredu).

(2) Yr un pryd ag yr anfonir yr hysbysiad y cyfeirir ato ym mharagraff (1)(b)(iv) at yr apelydd neu'r hawlydd, rhaid i Ysgrifennydd y Tribiwnlys anfon at yr awdurdod lleol neu'r corff cyfrifol—

(a) copi o'r cais apêl neu'r cais hawlio ac unrhyw ddogfennau cysylltiedig;

(b) nodyn o'r cyfeiriad y dylid anfon hysbysiadau a chyfathrebiadau iddo ar gyfer y Tribiwnlys;

(c) hysbysiad sy'n datgan yr amser ar gyfer cyflwyno datganiad achos a thystiolaeth yr awdurdod lleol neu'r corff cyfrifol o dan reoliad 19(1), a'r canlyniadau os na wneir hynny; a

(ch) datganiad o'r canlyniadau posibl i'r apêl neu'r hawliad os nad yw parti'n cydymffurfio â rheoliad 7 (rhwymedigaeth ar y partïon i gydweithredu).

(3) Pan fo'n ofynnol canfod enw'r corff cyfrifol mewn perthynas â hawliad, caiff y Llywydd wneud pa bynnag ymholiadau sy'n angenrheidiol at y diben hwnnw.

(4) Os yw'n ymddangos i'r Llywydd neu Ysgrifennydd y Tribiwnlys y gall fod mwy nag un corff cyfrifol mewn perthynas â hawliad, caiff y Tribiwnlys anfon y ddogfennaeth a bennir ym mharagraff (2) at unrhyw rai neu at bob un o'r cyfryw gyrff, fel y bo'n briodol.

(5) Os yw Llywydd ac Ysgrifennydd y Tribiwnlys o'r farn, ar sail y cais apêl neu'r cais hawlio, bod y person sy'n gwneud yr apêl neu'r hawliad yn gofyn i'r Tribiwnlys ystyried mater sydd y tu allan i bwerau'r Tribiwnlys, caiff Ysgrifennydd y Tribiwnlys roi hysbysiad i'r person hwnnw—

(a) sy'n datgan y rhesymau dros y farn honno; a

(b) sy'n rhoi gwybod i'r person rhaid peidio â chofnodi'r cais apêl neu'r cais hawlio yn y Gofrestr oni fydd y person, o fewn amser penodedig (rhaid iddo fod yn ddim llai na 5 niwrnod gwaith) wedi hysbysu Ysgrifennydd y Tribiwnlys o fwriad y person i fynd ymlaen â'r apêl neu'r hawliad.

(6) Os yw Ysgrifennydd y Tribiwnlys wedi rhoi hysbysiad o dan baragraff (5), rhaid trin y cais apêl neu'r cais hawlio fel un sydd wedi ei gael at ddibenion paragraff (1) os yw'r person sy'n gwneud yr apêl neu'r hawliad yn hysbysu Ysgrifennydd y Tribiwnlys o ddymuniad y person i fynd ymlaen â'r apêl neu'r hawliad.

(7) Os yw Ysgrifennydd y Tribiwnlys o'r farn bod gwall amlwg yn y cais apêl neu'r cais hawlio, caiff Ysgrifennydd y Tribiwnlys gywiro'r gwall hwnnw.

(8) Pan fo gwall wedi ei gywiro yn unol â pharagraff (7), rhaid i Ysgrifennydd y Tribiwnlys hysbysu'r person sy'n gwneud yr apêl neu'r hawliad o'r cywiriad, a datgan effaith paragraff (9).

(9) Oni fydd y person sy'n gwneud yr apêl neu'r hawliad yn rhoi gwybod i Ysgrifennydd y Tribiwnlys fod y person yn gwrthwynebu'r cywiriad, o fewn 5 niwrnod gwaith ar ôl rhoi'r hysbysiad o dan baragraff (8), rhaid trin y cais apêl neu'r cais hawlio fel y'i cywirwyd fel y cais apêl neu'r cais hawlio at ddibenion y Rheoliadau hyn.

(10) Yn ddarostyngedig i reoliadau 67(2) a (3) a pharagraff (11), rhaid i Ysgrifennydd y Tribiwnlys anfon yr holl ddogfennau a hysbysiadau ynglŷn â'r apêl neu'r hawliad at yr apelydd neu'r hawlydd.

(11) Mae paragraff (10) yn gymwys—

(a) oni fydd yr apelydd neu'r hawlydd yn hysbysu Ysgrifennydd y Tribiwnlys fod rhaid anfon yr holl ddogfennau a hysbysiadau ynglŷn â'r apêl neu'r hawliad at y cynrychiolydd yn hytrach nag at yr apelydd neu'r hawlydd;

(b) yn ddarostyngedig i reoliadau 55(7) a 79(5).

(12) Pan fo paragraff (11)(a) yn gymwys, rhaid dehongli cyfeiriadau yn y Rheoliadau hyn (sut bynnag y'u mynegir) at anfon dogfennau at yr apelydd neu'r hawlydd, neu roi hysbysiad i'r apelydd neu'r hawlydd, fel pe baent yn gyfeiriadau at anfon dogfennau at y cynrychiolydd neu roi hysbysiad i'r cynrychiolydd.